Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **7 Mai 2010**

Teitl: Cyhoeddi aelodaeth Bwrdd Gweithredu'r Coleg Ffederal

Mae aelodaeth Bwrdd Gweithredu'r Coleg Ffederal, a fydd yn goruchwylio datblygiad cyfreithiol y coleg ffederal addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn i ddod, wedi cael ei chadarnhau.

Yn strategaeth a chynllun addysg uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, *Er Mwyn Ein* Dyfodol, gofynnwyd i CCAUC sefydlu Bwrdd Gweithredu i roi'r trefniadau yn eu lle ar gyfer y Coleg Ffederal Cyfrwng Cymraeg, a fydd yn cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Roedd hyn yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan yr Athro Robin Williams yn 2009 a gynigiodd fodel ar gyfer y Coleg Ffederal.

Ym mis Ebrill, cadarnhawyd Geraint Talfan Davies yn Gadeirydd y Bwrdd Gweithredu.

Mae'r Bwrdd Gweithredu, a gyfarfu am y tro cyntaf yr wythnos ddiwethaf, wedi cael ei ffurfio drwy estyn y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg presennol, fel yr argymhellwyd yn adroddiad yr Athro Williams. Mae'n dwyn ynghyd aelodau'r Grŵp Sector ac aelodau'r Bwrdd Cynllunio Coleg Ffederal gwreiddiol.

Bydd y Bwrdd newydd yn datblygu trefniadau ar gyfer ymdrin â materion cyllido, ymgorffori'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, strwythur rheoli a staffio'r

Coleg Ffederal, a phenodi Cyngor Cenedlaethol newydd y Coleg Ffederal a throsglwyddo'r awenau iddo.

Meddai Geraint Talfan Davies: "Mae aelodaeth y Bwrdd Gweithredu yn dwyn ynghyd yr holl bobl y bydd eu hangen i sicrhau y gallwn greu fframwaith ymarferol, effeithiol ac effeithlon sy'n cwrdd ag anghenion pawb, gan gynnwys myfyrwyr a staff, a bydd hyn yn rhoi cychwyn campus i'r Coleg Ffederal yn 2011. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'r angen i weithio'n gyflym fel y gall y bwrdd parhaol ddechrau ar ei waith mor gynnar â phosibl y flwyddyn nesaf."

Aelodaeth y Bwrdd Gweithredu yw:

- Geraint Talfan Davies (Cadeirydd)
- Katie Dalton (Llywydd, NUS Cymru)
- Eurig Davies (Prifathro, Ysgol Gyfun Ystalyfera)
- Bethan Edwards (Prifysgol Cymru, Casnewydd)
- Elinor Gwynn (Ymgynghorydd Gweithredol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru)
- Rob Humphreys (Y Brifysgol Agored yng Nghymru)
- Medwin Hughes (Coleg Prifysgol y Drindod a Phrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan)
- Meri Huws (Coleg Prifysgol y Drindod a Chadeirydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg)
- Aled Jones (Prifysgol Aberystwyth)
- Hefin Jones (Prifysgol Caerdydd)
- Ken Jones (Prifysgol Fetropolitan Abertawe)
- Llion Jones (Prifysgol Bangor)
- Gareth Lewis (yn dal swyddi uwch gynt yn y sector addysg uwch yng Nghymru)
- David Lloyd (Prifysgol Caerdydd)
- Rhys Llwyd (cyd-awdur dogfen ar y Coleg Ffederal Cymraeg)
- Richard Moremon (Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd)
- Andrew Parry (Prifysgol Glyndŵr)
- Huw Morris (Prifysgol Abertawe)
- Denise Williams (Prifysgol Morgannwg)
- Dafydd Johnston (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Prifysgol Cymru)
- Ieuan Wyn (Ysgrifennydd, Pwyllgor Llywio'r Ymgyrch Coleg Cymraeg Ffederal)

Sylwedydd: Amanda Wilkinson (Addysg Uwch Cymru).

- CCAUC: Celia Hunt (Pennaeth Strategaeth, Dysgu a Chyllido), neu Dr David Blaney (Cyfarwyddwr Datblygu Strategol)

Nodiadau

CCAUC – cysylltwch ag: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu,
029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- yr ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Mae **Geraint Talfan Davies** yn Gadeirydd y Sefydliad Materion Cymreig ac Opera Cenedlaethol Cymru. Bu'n Rheolwr BBC Cymru o 1990 i 2000. Wedi ymddeol o'r BBC mae ef wedi cynrychioli Cymru ar yr Awdurdod Radio.

Mae ef hefyd yn gyn-Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru, a bu'n Llywodraethwr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (APCC). Ym myd y celfyddydau, bu'n Gadeirydd CBAT, yr Asiantaeth Celfyddydau ac Adfywio, ac yn aelod o fwrdd Gwobr Celfyddydau Gweledol Ryngwladol Artes Mundi, Canolfan Mileniwm Cymru, a Sgrin.

Mae ef hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol gyda Glas Cymru Cyf. (Dŵr Cymru), yn Ymddiriedolwr gyda'r Ymddiriedolaeth Safonau Cyfryngau, ac yn Gymrawd Anrhydeddus APCC a RIBA.

Bydd y **Coleg Ffederal** yn endid cyfreithiol newydd ac annibynnol gyda Chyfansoddiad. Ni fydd yn endid daearyddol sengl ac ni fydd yn gorff dyfarnu graddau, ond bydd yn gweithio gyda a thrwy'r sefydliadau addysg uwch presennol (ffederal). Ei genhadaeth fydd cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn AU yng Nghymru. Y Cyngor Cenedlaethol fydd corff llywodraethu'r Coleg Ffederal.

Bu'r **Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg** yn arwain sefydlu fframwaith a chynllun datblygu strategol newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd gan y Grŵp gynrychiolwyr ar lefel uwch o bob sefydliad AU. Cafodd ei gefnogi gan grŵp cydlynol o staff o'r sefydliadau, is-grwpiau a oedd yn gyfrifol am feysydd manwl penodol, a phaneli rhwydwaith ar gyfer ystod o bynciau.

Addysg Uwch Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, ac mae'n rhan o Brifysgolion y DU/Universities UK.